

## Wythnos Cymorth Cristnogol 2017

Yn ystod yr wythnos nesaf (14-20 Mai) bydd cynulleidfaoedd ar draws ynysoedd Prydain yn dathlu Wythnos Cymorth Cristnogol ac fe fydd gwirfoddolwyr ar draws Cymru gyfan yn dosbarthu amlenni ar gyfer y casgliad. Rhoddir sylw arbennig yn ystod yr Wythnos eleni i angen ffoaduriaid. Duw yn unig a wŷr beth yw maint y boen a ddiodefir gan ffoaduriaid ar draws y byd.

Fe allwn ninnau gau ein llygaid a'n clustiau i'r gri am gymorth. Gwyddom y bydd y tristwch yn parhau oni chaiff heddwch a chyfiawnder eu gorseddu. Ond ni all neb ohonom, siawns, gau ein calonau i ddiodefaint trueuniaid byd. Onid oes cyfrifoldeb gennym, os yw'r modd gennym, i gyfrannu ryw gymaint i liniaru eu trallod?

A daw'r angen yn fyw iawn i bob yr un ohonom pan ddarllenwn hanes un teulu penodol.

### Stori Nejebar

"Ffodd Nejebar Affganistan gyda'i theulu ar ôl i'r Taliban fygwth lladd ei gŵr, Noor, a oedd yn athro. Nid bygythiad gwag oedd o – fe lofruddiodd y Taliban aelod arall o'r teulu i gychwyn.

'Y dyddiau a'r wythnosau olaf yn Affganistan oedd y rhai mwyaf anodd,' meddai Noor. 'Pan oeddwn yn mynd i'm gwaith, roedd fy nghalon yn curo'n

**Rydym wedi cefnogi ffoaduriaid ers 1945**

**Wnawn ni ddim troi cefn yn awr.**  
Pan fydd amlen Wythnos Cymorth Cristnogol yn glanio ar eich mat, cyfrannwch os gwelwch yn dda er mwyn helpu ffoaduriaid dderbyn y diogelwch a'r gefnogaeth maent mewn cymaint angen amdano.

Credwn mewn byw cyn marw  
[caweek.org](http://caweek.org)

wythnos cymorth cristnogol 14-20 MAI

galed. Doeddwn i ddim yn gwybod a fyddai fy nheulu yn dal yn fyw wedi imi ddod adref.'

Mae teulu Nejebar yn sownd yng Ngroeg. Pan gyrhaeddodd y teulu wersyll ffoaduriaid yng Ngroeg, roeddent yn credu mai ond am

10 diwrnod y byddai raid iddynt aros yno. Ond maent wedi bod yno am chwe mis bellach a dim arwydd eu bod am gael symud.

Yr unig loches sydd ganddynt yn erbyn y gwynt a'r glaw ydi eu pabell. Does dim ysgol i'r plant. Mae eu plentyn fengaf, Sudai, sy'n bump, yn sâl, ond ni wŷr Nejebar a Noor be sy o'i le efo fo gan nad ydynt yn deall meddyg y gwerysll, sy'n Roegwr.

### Gobaith Nejebar am y dyfodol

Nejebar yw'r graig sy ynghanol bywyd y teulu, yn eu dal efo'i gilydd ynghanol yr holl ansicrwydd. Mae hyd yn oed wedi croesawu Faraidoon a Farzad i'r teulu, dau frawd na wyddant ble mae eu rhieni, na hyd yn oed os ydynt yn fyw ai peidio.

'Mae gennym beth gobaith am ddyfodol ein plant,' meddai Nejebar. 'Dim ond am gael bywyd heddychlon ydan ni. Rydan ni am i'r plant gael mynd i'r ysgol. Y peth pwysicaf i ni yw'r plant.'" (O wefan Cymorth Cristnogol)

Cofiwch fod myrdd o syniadau am weithgaredd ac am ffyrdd i godi arian, gan gynnwys adnoddau i'n galluogi i gynnal oedfa Wythnos Cymorth Cristnogol, ar gael ar [www.christianaid.org.uk/cymru](http://www.christianaid.org.uk/cymru)

(Gol)

### Sasiwn Genhadol Chwiorydd y De

Cofiwch, un ac oll, y cynhelir y Sasiwn Genhadol yn Soar, Pontardawe ar 18 o Fai. Bydd dau gyfarfod. Yn y prynhawn am 2:00 o'r gloch ceir cyfle i glywed am brosiectau a thema'r gwaith eleni gan Mrs Sarah Morris. Byddwn hefyd yn clywed

am ymweliad Bethan Davies a'r Philipinas ac am Apêl Corwynt Cariad. Yn yr hwyr am 5:30 bydd y Parch Nan Wyn Powell Davies yn annerch.

A chofiwch bod croeso cynnes yn eich aros a dyhead am i'r Arglwydd gwrdd â'i bobl unwaith yn rhagor wrth i ni gyd-gyfarfod yng Nghwm Tawe.